# COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

## 19EG MEHEFIN, 2015

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**9.30am – 9.45am**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| **Y Cynghorydd L.D. Evans** | **Tai;** |

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **Mr. J. Morgan** | **Rheolwr y Gwasanaethau Tai;** |
| **Mr. M.S. Davies** | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.** |

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

| |
|---|
| **Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.** |

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| **2.** | **<u>COFNOD PENDERFYNIADAU - 26ain Chwefror 2015</u>**<br><br>**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 26ain Chwefror, 2015, gan ei fod yn gywir.** |
| **3.** | **<u>POLISI GOSODIADAU LLEOL CARTREF CYNNES</u>**<br><br>Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i Bolisi Gosodiadau Lleol ar gyfer 'Cartref Cynnes', sef cynllun gofal ychwanegol newydd yn Ward Gorllewin Caerfyrddin a weithiai mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Teulu (Cymru) a fyddai'n caniatáu i lety gael ei gymryd y tu hwnt i'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol ar gyfer y sir gyfan. Byddai'r Polisi yn:<br><br>• sicrhau dyraniadau priodol i'r cynllun gofal ychwanegol;<br>• gwella cynhwysiad cymdeithasol ac yn meithrin cymunedau cynaliadwy yn y cynllun a;<br>• helpu i greu model cynaliadwy cytbwys a fyddai'n arwain at wella lles y preswylwyr ac yn gwella'r amcanion o ran gofal ychwanegol a byw'n annibynnol.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at Atodiad 1 i'r Polisi a nodai y byddai angen i ymgeiswyr â dementia fod yn 50 oed neu'n hŷn, gan ddweud y gallai'r afiechyd hwn effeithio ar bobl iau. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai i fynd ar drywydd hyn gyda Chymdeithas Tai Teulu (Cymru) gyda golwg ar addasu'r maen prawf hwnnw o bosibl.<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo Polisi Gosodiadau Lleol Cartref Cynnes ar gyfer Ward Gorllewin Caerfyrddin.** |

**COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI**

**19EG MEHEFIN, 2015**

| | |
|---|---|
| **4.** | **<u>DEDDF TAI (CYMRU) 2014 – YMCHWILIO I DDIGARTREFEDD BWRIADOL</u>**<br><br>Gan gyfeirio at Gofnod 3 cyfarfod penderfyniadau'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai ar 26ain Chwefror 2015, rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a roddai sylw i'r newidiadau yn Neddf Tai (Cymru) 2014 o ran penderfyniadau ynghylch digartrefedd bwriadol. O 1af Gorffennaf 2015 ymlaen byddai'n rhaid i Gynghorau benderfynu pa aelwydydd fyddai'n destun diffiniad y Ddeddf o ddigartrefedd bwriadol, nad oedd yn wahanol i'r Ddeddf Tai flaenorol, gan y byddai methu gwneud yn golygu na fyddai'r Cyngor yn gallu gwneud penderfyniadau mwyach ynghylch digartrefedd bwriadol.<br><br>Roedd y swyddogion o'r farn na fyddai'n briodol lleihau'r grwpiau angen blaenoriaethol a gâi eu hystyried yn fwriadol ddigartref ar hyn o bryd. Byddai hyn yn caniatáu amser i gael dealltwriaeth lawn o effaith y ddeddfwriaeth newydd.<br><br>**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r grym oedd ganddo i ymchwilio i'r holl grwpiau angen blaenoriaethol wrth wneud penderfyniadau ynghylch digartrefedd bwriadol.** |

______________________________

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

______________________________

Y DYDDIAD